Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
25/2017

DYDDIAD CYHOEDDI:
09 MAI 2017

# Asesiad Gwerthusadwyedd Teuluoedd yn Gyntaf

© Hawlfraint y Goron

ISBN Digidol 978-1-4734-9452-7

**Teitl: Asesiad Gwerthusadwyedd Teuluoedd yn Gyntaf**

Awdur(on) / Cwmni

Hannah Thomas, Llywodraeth Cymru
Hayley Collicott, Llywodraeth Cymru

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 025 0508
E-bost: Hannah.Thomas018@wales.gsi.gov.uk

**Tabl Cynnwys**

1. Crynodeb....................2

2. Cyflwyniad....................3

3. Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf....................4

4. Sail resymegol y rhaglen....................6

5. Gwerthusadwyedd Teuluoedd yn Gyntaf....................9

6. Dulliau sy’n bosibl ar hyn o bryd....................19

7. Dulliau sy’n bosibl yn y dyfodol....................22

8. Casgliadau....................24

# 1. Crynodeb

1.4 Nod yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r materion a'r heriau sy'n codi wrth geisio cynnal gwerthusiad cadarn o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Mae'r adroddiad yn defnyddio rhestr wirio gwerthusadwyedd sy'n archwilio'r holl agweddau ar y rhaglen yn systematig er mwyn pennu i ba raddau y mae modd ei gwerthuso ac o ran pa elfennau.

1.5 Mae'r rhestr wirio wedi'i chwblhau, ar y cyd â chanfyddiadau'r gwerthusiadau sydd wedi'u cynnal hyd yma, yn cynnig dealltwriaeth glir o beth y gellir ei gasglu gyda sicrwydd rhesymol ar hyn o bryd o ran effeithiau'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, a beth na ellir ei gasglu.

1.6 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r argymhellion canlynol ar gyfer unrhyw werthusiadau o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn y dyfodol os nad oes angen gwneud unrhyw newidiadau;

- Agweddau a chanfyddiadau rhanddeiliaid o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf
- Sut mae'r rhaglen yn cael ei rhoi ar waith ac ansawdd y broses o'i rhoi ar waith
- P'un ai a yw cynllun y rhaglen yn addas i'r diben

1.7 Heb newidiadau i'r data sy'n cael eu casglu am deuluoedd sy'n defnyddio gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf, dim ond atgynhyrchu gwaith ymchwil blaenorol y bydd modd i werthusiadau'r dyfodol ei wneud. Gallai cyflwyno casgliad data ychwanegol arwain at werthusiadau mwy cadarn. Gallai gwaith casglu data o'r fath gynnwys;

- Datblygu systemau newydd ar gyfer casglu data lefel unigolyn am ddefnydd gwasanaeth ar gyfer teuluoedd sy'n defnyddio'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, sy'n cael eu cyflwyno fel systemau safonol ar draws yr holl awdurdodau lleol.
- Sefydlu unrhyw wasanaethau neu ymyriadau ychwanegol y mae derbynwyr Teuluoedd yn Gyntaf yn eu cael a chysylltu hyn â'r data lefel unigolyn.

1.8 Gallai hyn wedyn ganiatáu i'r cwestiynau canlynol am Deuluoedd yn Gyntaf gael eu hystyried;

- Lefel yr ymateb i wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf gan unigolion a theuluoedd
- P'un ai a yw'r lefel ymgysylltu â gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf yn arwain at wahanol ganlyniadau

- Y prosesau rhyngweithio rhwng y gwahanol wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf
- Effeithiau tymor hwy Teuluoedd yn Gyntaf
- Demograffeg y rhai a chanddynt lefelau ymgysylltu uwch neu is â gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf
- P'un ai a yw gwahanol nodweddion unigolion yn arwain at wahanol ganlyniadau i'r rhai sy'n ymwneud â gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf

1.9 Petai'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud, yna efallai bydd y canlynol yn bosibl:

- Dadansoddiad o ddata lefel unigolyn i brofi p'un ai a yw nodweddion unigolion neu ffactorau cyd-destunol ehangach yn effeithio ar effaith gwasanaethau.
- Dadansoddiad ystadegol ar lefel unigolyn i bennu effeithiau gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf
- Pan fydd gwasanaethau neu ymyriadau ychwanegol yn cael eu defnyddio, p'un ai a yw'r rhain yn cael effaith ychwanegol ar y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf ai peidio.

## 2. Cyflwyniad

2.1. Nod yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r materion a'r heriau sy'n codi wrth gynnal gwerthusiad cadarn o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Mae'r rhaglen wedi'i gwerthuso droeon ers 2012 gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau. Mae pob gwerthusiad wedi cyfeirio at y problemau sy'n codi wrth werthuso'r rhaglen; nod yr adroddiad hwn yw gosod y materion a'r heriau hynny drwy gyflawni asesiad gwerthusadwyedd o'r rhaglen.

2.2. Caiff y term gwerthusadwyedd ei ddisgrifio fel "*I ba raddau y gellir gwerthuso gweithgaredd neu brosiect mewn modd dibynadwy a chredadwy"* (OECD-DAC 2010; t.21). Bydd unrhyw asesiad o werthusadwyedd rhaglen yn ceisio pennu pa mor llwyddiannus fydd unrhyw werthusiadau yn darparu tystiolaeth ddefnyddiol a dibynadwy.

a) Diben yr asesiad hwn yw pennu a yw gwerthusiadau'r dyfodol yn ymarferol, pa agweddau y gallant eu defnyddio, a pha newidiadau i'r broses o gasglu data a fyddai'n angenrheidiol i'w hwyluso.

2.3. Mae'r rhestr wirio a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn wedi'i chymryd gan yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol, a chaiff ei defnyddio i sicrhau bod yr holl agweddau ar y rhaglen yn cael eu hystyried yn systematig. Gellir defnyddio'r rhestr wirio i bennu pa mor effeithiol mae unrhyw werthusiad yn debygol o fod, ac i ganfod meysydd lle gellir gwella'r rhaglen.

2.4. Yn gyffredinol, dyma'r prif gwestiynau y dylai unrhyw raglen[1] eu gofyn:

- A yw asesiad effaith yn ddefnyddiol?
- A yw'n debygol y bydd effeithiau?
- A yw'n ymarferol mesur effeithiau?

Mae deall sut mae'r rhaglen yn cael ei chyflawni, y cyd-destun mae'n gweithredu ynddo, nodau ac amcanion y rhaglen, a sail resymegol y rhaglen yn hollbwysig i ateb y cwestiynau hyn.

2.5. Mae Adran 3 yn cyflwyno'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf a beth mae'r canllaw yn ei nodi y dylid ei gynnig fel rhan o wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf. Mae Adran 4 yn disgrifio'r rhaglen yn fwy manwl ac yn archwilio'r sail resymegol a'r model rhesymeg sydd wrth wraidd Teuluoedd yn Gyntaf. Mae Adran 5 yn cynnwys rhestr wirio wedi'i chwblhau er mwyn pennu pa agweddau ar y rhaglen sy'n caniatáu gwerthuso'n effeithiol, a pha agweddau sy'n creu heriau wrth werthuso. Mae Adran 6 wedyn yn nodi manylion yr agweddau sydd wedi'u defnyddio mewn gwerthusiadau blaenorol, ac yn archwilio pa agweddau allai fod yn bosibl pe gwnaed newidiadau, a'r manteision a'r costau sy'n gysylltiedig â'r newidiadau hyn.

## 3. Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf

3.1 Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn ceisio gwella dyluniad a phrosesau awdurdodau lleol o ddarparu gwasanaethau cymorth i deuluoedd drwy gynnig cymorth cyd-gysylltiedig, a drwy gydlynu'r sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd. Mae'r rhaglen yn hyrwyddo datblygu systemau a chymorth aml-asiantaethol effeithiol o fewn ardaloedd awdurdodau lleol, gyda phwyslais clir ar atal ac ymyrryd yn fuan.

3.2 Mae'r rhaglen yn ceisio gwella mynediad cynnar at gymorth ataliol a'i gyflwyno, ac mae wedi'i chynllunio i gyd-fynd â gwasanaethau prif ffrwd. Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn enghraifft o egwyddor 'buddsoddi i arbed' Llywodraeth Cymru, sy'n cefnogi teuluoedd cyn i'w problemau fynd yn fwy cymhleth ac felly'n ddrutach i'w datrys.

3.3 Yn ei hanfod, mae rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn 'rhaglen arloesi' sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu eu modelau gweithio eu hunain er mwyn mynd i'r afael â'r anghenion a nodir yn eu hardaloedd. Felly mae'r broses o reoli a llywodraethu'r rhaglen yn gofyn cael cydbwysedd rhwng mynd i'r afael â'r gofynion sy'n greiddiol i'r holl awdurdodau lleol a hyrwyddo amrywiaeth yn y ffordd mae'r rhaglen yn cael ei rhoi ar waith yn lleol. Mae'r egwyddorion hyn sy'n sail i'r rhaglen yn nodi y dylai sicrhau'r canlynol;

- Ffocws ar y teulu, dull gweithredu teulu cyfan er mwyn gwella canlyniadau;
- Pwrpasol, teilwra help yn ôl anghenion teuluoedd unigol;
- Integredig, gan gydlynu cynllunio a darparu gwasanaethau ar draws sefydliadau, gan sicrhau bod asesiad o anghenion a chyflenwi yn cael eu

[1] http://pdf.usaid.gov/pdf_docs/PNADN200.pdf

rheoli ar y cyd, gyda chynnydd di-dor i deuluoedd rhwng ymyriadau a rhaglenni gwahanol;

- Rhagweithiol, ceisio adnabod yn gynnar ac ymyriadau priodol i deuluoedd;
- Dwys, ymgymryd ag ymagwedd a ffocws sy'n addasu i amgylchiadau sy'n newid teuluoedd;
- Lleol, adnabod anghenion cymunedau lleol a datblygu cyflenwi gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion hynny.

3.4 Mae partneriaethau Teuluoedd yn Gyntaf yn cael hyblygrwydd sylweddol o ran sut maent yn cyflawni'r rhaglen, ond, mae disgwyl y bydd ei chyflawni'n lleol yn ymgorffori ystod o nodweddion cyffredin:

- Cynllunio strategol, yn seiliedig ar archwiliadau lleol o ran anghenion a darpariaeth bresennol;
- Datblygu a gweithredu Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd;
- Datblygu a gweithredu Tîm o Amgylch y Teulu;
- Prosiectau wedi eu comisiynu'n strategol;
- Elfen anabledd; a
- Defnyddio setiau dysgu.

3.5 Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn olynu'r grant Cymorth yr oedd awdurdodau yng Nghymru yn ei gael o 2003 ymlaen i gefnogi plant a phobl ifanc. Cafodd Teuluoedd yn Gyntaf ei gyflwyno ym mis Ebrill 2012 ar draws yr holl 22 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru, ar ôl cyfnod arloesi a fu'n profi ystod o fodelau cyflawni ar draws pum consortiwm.

3.6 Mae pedwar canlyniad arfaethedig cenedlaethol wedi'u nodi ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf, sef bod;

- Pobl oed gweithio mewn teuluoedd incwm isel i gael cyflogaeth ac i symud ymlaen mewn cyflogaeth;
- Plant, pobl ifanc a theuluoedd mewn tlodi neu mewn perygl o dlodi, i gyflawni eu potensial;
- Plant, pobl ifanc a theuluoedd yn iach, yn ddiogel ac yn mwynhau lles;
- Teuluoedd yn hyderus, yn ofalgar ac yn wydn.

Mae nifer o ddangosyddion poblogaeth wedi'u dewis a ddylai helpu i gael syniad p'un ai a yw ymyriadau Teuluoedd yn Gyntaf ar y trywydd iawn i gyflawni eu canlyniadau arfaethedig.

## 4. Sail resymegol y rhaglen

4.1. Wrth werthuso polisi neu raglen, mae'n rhaid meithrin dealltwriaeth lawn o'r theori y tu ôl iddynt. Mae hyn yn golygu diffinio'r camau mae'n rhaid eu dilyn i gyflwyno'r polisi yn glir, yn ogystal â'r cyd-destun mae'n gweithredu ynddo, pa adnoddau mae eu hangen, beth sydd wir yn cael ei gyflawni fel rhan o'r polisi a pha newidiadau a ddisgwylir o ganlyniad. Un ffordd y gellir meithrin a disgrifio'r ddealltwriaeth hon yw drwy fodel rhesymeg.

4.2. Mae'r Llyfr Magenta yn nodi bod modelau rhesymeg yn disgrifio'r berthynas rhwng mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau, canlyniadau, ac effeithiau ymyrraeth (tud. 22).

- Mewnbynnau yw'r adnoddau mesuradwy sy'n ofynnol i gyflwyno'r polisi/rhaglen. Gall hyn gynnwys cyllid, staff, adeiladau neu ddeunyddiau ffisegol megis llyfrau neu daflenni.
- Gweithgareddau yw'r tasgau go iawn sy'n ymwneud â chyflwyno'r polisi. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys darparu cyrsiau hyfforddi, dosbarthu gwybodaeth neu adeiladu ffordd.
- Allbynnau yw canlyniadau uniongyrchol y gweithgareddau a beth mae'r derbynnydd yn ei wneud wrth ymateb i'r gweithgareddau. Felly yn yr enghraifft o ddarparu cwrs hyfforddi, gallai'r allbwn olygu'r bobl sy'n bresennol ar y cwrs.
- Mae'r canlyniadau'n cyfeirio at ganlyniadau'r allbynnau a byddant yn digwydd unrhyw adeg ar ôl y gweithgaredd. Gan fwrw ymlaen â'r enghraifft o gwrs hyfforddi, yn ddelfrydol, y canlyniad fyddai cynnydd yn sgiliau neu wybodaeth y derbynwyr.
- Effeithiau yw effeithiau hirdymor, ehangach polisi/rhaglen, a chânt fel arfer eu hystyried y nod delfrydol. Cânt eu hystyried yn aml yn ôl lefel poblogaeth ac felly byddent yn disgrifio sut gall gweithgaredd arwain at newidiadau parhaol yn y grŵp oedd yn ymwneud â'r gweithgaredd. Ar lefel genedlaethol, gallai hyn olygu cynnydd mewn incwm, neu wella iechyd.

4.3. Gellir ystyried model rhesymeg hefyd fel ffordd o gyfleu theori newid. Mae theori newid yn ceisio archwilio'r tybiaethau ynglŷn â rhaglen ac ar ba sail mae'n honni y gall sicrhau'r canlyniadau a'r effeithiau sydd wedi'u nodi yn y model rhesymeg[2]. Gellir ei hystyried yn fras fel gwerthusiad beirniadol o fodel rhesymeg, y mae'r cysylltiadau rhwng y mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau, canlyniadau ac effeithiau yn cael eu harchwilio ac mae'r tybiaethau'n cael eu nodi a'u herio.

4.4. Ynghlwm wrth bob polisi cymdeithasol mae tybiaethau am sut bydd y polisi'n ymgysylltu â'r derbynwyr targed. Gall y rhain amrywio yn ôl maint poblogaeth y derbynwyr disgwyliedig i sut bydd y gweithgareddau'n dylanwadu ar ganlyniadau'r derbynwyr. Y tybiaethau hyn sy'n cael eu profi mewn gwerthusiadau polisi.

[2] http://r4d.dfid.gov.uk/pdf/outputs/mis_spc/DFID_ToC_Review_VogelV7.pdf

4.5. Yn ogystal â’r tybiaethau sylfaenol, mae theori newid hefyd yn nodi’r cyd-destun y mae’r polisi neu’r rhaglen yn gweithredu ynddo. Mae hyn yn hollbwysig, gan y gall cyd-destun gael dylanwad mawr ar effaith ymyrraeth. Mae’r cyd-destun yn yr achos hwn yn cyfeirio at y systemau gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd sydd ar waith, sefyllfa’r buddiolwyr targed cyn y broses weithredu a phwy sy’n ymwneud â’r broses o roi’r rhaglen ar waith a mynd i’r afael â’r broblem. Dylai hefyd gynnwys y modd y bwriedir ei gweithredu, gan y gall ‘cywirdeb’ o ran hyn gael effaith fawr ar ba mor llwyddiannus yw ymyrraeth.



Mewnbwn
Gweithgareddau
Allbwn
Canlyniad
Effaith
Cyllid ar gyfer datblygu Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd / Tîm o Amgylch y Teulu
Adnoddau eraill mewn nwyddau
Staff TYG wedi eu cyllido gan Teuluoedd yn Gyntaf
Staff eraill sy'n rhan o'r gwaith cyflawni
Cyllid TYG ar gyfer prosiectau strategol a chyllid
Adnoddau staff Awdurdodau Lleol ac eraill yn cael eu defnyddio wrth
Cyllid TYG ar gyfer canolbwyntio ar
Gwariant Llywodraeth
Gwariant Awdurdodau Lleol (costau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chyflawni)
Amser staff Awdurdodau Lleol
Cytundeb ar adnoddau a phrosesau JAFF /
Protocolau ar gyfer gwaith aml-asiantaethol wedi eu
Peilota a chyflwyno adnoddau a phrosesau JAFF/
Ymgysylltu: Bodlonrwydd ag ymgysylltu â dylunio / alinio / diffinio rolau
Hyfforddiant ar adnoddau a phrosesau JAFF /
Gweithgarwch codi ymwybyddiaeth ehangach ac ymgysylltu â phartneriaid
Nodi angen am gymorth ychwanegol / atgyfeiriadau
Penderfyniadau ar gymhwyster ar gyfer Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd
Ymwybyddiaeth well o: Amcanion Teuluoedd yn Gyntaf Eglurder rolau Y broses atgyfeirio Gwasanaethau eraill sydd ar gael
Ffurfio'r Tîm o Amgylch y Teulu
Cymorth addarperir gan y Tîm o Amgylch y Teulu: yn seiliedig ar gryfderau a mewnbwn gan asiantaethau perthnasol
Cyfeirio at gymorth priodol nad yw'n rhan o'r Tîm o Amgylch y Teulu
Cyfeirio at brosiectau wedi eu comisiynu'n strategol
Dull comisiynu amlasiantaethol
Comisiynu asesiad o anghenion
Penderfyniadau ar anghenion comisiynu
Penderfyniadau ar ddatgomisiynu
Amgylchedd Dysgu a Reolir
Partneriaethau rhanbarthol/trawsffiniol / partneriaethau thematig
Digwyddiadau
Nifer y defnyddwyr
Cyfranogiad mewn Setiau Dysgu
Presenoldeb mewn digwyddiadau
Nodweddion y broses Yn seiliedig ar gryfderau Cyfannol Aml-asiantaethol Rhannu gwybodaeth
Teuluoedd sy'n cael asesiad JAFF: cynnwys y teulu cyfan;asesu anghenion lluosog
Cytuno ar gynllun Tîm o Amgylch y Teulu a'i lofnodi
Teuluoedd yn cwblhau / adolygu cynllun gweithredu Tîm o Amgylch y Teulu
Teuluoedd yn defnyddio prosiectau strategol
Comisiynu prosiectau strategol
Cynhwyso dysgu i ddyluniad Teuluoedd yn Gyntaf
Comisiynu gwasanaethau newydd yn seiliedig ar arfer da
Nodi'r rhai sydd angen Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd / Tîm o Amgylch y Teulu yn effeithiol
Nodi cryfderau ac anghenion mewn ffordd fwy cynhwysfawr
Nodi cryfderau ac anghenion yn gynharach
Rhoi sylw i anghenion ar unwaith
Rhoi sylw i achosion gwaelodol anghenion
Canlyniadau comisiynu: Mwy effeithiol o ran nodi angen nas diwallwyd Nodau wedi eu targedu'n well Cwrdd ag anghenion o ran anabledd Darpariaeth gynhwysfawr Lleihau dyblygu Gwella aliniad
Gwella ansawdd gwasanaethau
Gwella canlyniadau hirdymor i deuluoedd
Manteision ehangach darparu gwasanaethau Alinio
Allwedd
Ffurflenni monitro Awdurdodau Lleol
Arolwg rhanddeiliaid
Arall
Canlyniadau ar lefel y rhaglen

# 5. Gwerthusadwyedd Teuluoedd yn Gyntaf

5.1. Cymerwyd y rhestr wirio hon o tt. 19-23: Davies, R., 2013. *Planning Evaluability Assessments: A Synthesis of the Literature with Recommendations*. Adroddiad astudiaeth a gomisiynwyd gan yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol.

5.2. Mae’r rhestr wirio’n nodi’r dimensiynau gwerthusadwyedd a ganlyn;

- Gwerthusadwyedd “mewn egwyddor”, o ystyried natur theori newid y prosiect
- Gwerthusadwyedd “yn ymarferol”, o ystyried argaeledd data perthnasol a chapasiti systemau rheoli i’w darparu.
- Pa mor ddefnyddiol ac ymarferol yw gwerthusiad, o ystyried safbwyntiau ac argaeledd rhanddeiliaid perthnasol

5.3. Nod hyn yw gweithredu fel proses systematig sy’n cynnig dulliau atebol o sicrhau bod yr holl faterion perthnasol yn cael eu cynnwys. Mae’r canlyniadau disgwyliedig yn ymdrin nid yn unig â gwerthusadwyedd y prosiect ond hefyd â pha mor ymarferol a defnyddiol yw gwerthusiad. Y gobaith yw y bydd hyn yn sylfaen ar gyfer gwerthusiadau ac ymchwil y dyfodol ac o bosibl yn awgrymu sut y gellid newid y rhaglen er mwyn caniatáu cynnal gwerthusiadau mwy effeithiol.

5.4. Mae Tabl 1 yn dangos y rhestr wirio gwerthuso wedi ei chwblhau ar gyfer y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.

**Tabl 1. Rhestr wirio gwerthuso wedi ei chwblhau ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf**

| **1. Cynllun y Prosiect** | | **Nodiadau – (y cadarnhaol a’r negyddol)** |
|---|---|---|
| **Eglurder?** | A yw’r effaith hirdymor a’r canlyniadau wedi eu nodi’n glir, ac a yw’r camau arfaethedig tuag at gyflawni’r rhain wedi’u diffinio’n glir? | • Mae nodau’n cael eu diffinio i leihau rhai Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, gan gynnwys cam-drin geiriol/corfforol/rhywiol, amlygiad i drais yn y cartref, amlygiad i gamddefnyddio sylweddau/alcohol, rhieni’n gwahanu ac iechyd meddwl gwael rhieni. Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn darparu cymorth ymyrraeth gynnar/ataliol aml-asiantaethol sy’n canolbwyntio ar y teulu.<br>• Mae cyfarwyddyd Teuluoedd yn Gyntaf yn glir am amcanion y rhaglen a nodir camau clir i gyflawni’r nodau hyn o ran y Fframwaith Asesu’r Teulu ar y Cyd / Tîm o Amgylch y Teulu a phrosiectau a gomisiynwyd<br>• Er y cafwyd rhywfaint o amrywiaeth ym mhrif amcanion y rhaglen, yn enwedig camu i ffwrdd yn 2016 rhag cyflawni gweithgareddau sy’n canolbwyntio ar gyflogaeth yn unig, mae’r prif gydrannau a’r dull gweithredu wedi aros yr un fath. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Nid yw'r effeithiau a fwriedir wedi eu diffinio'n glir, a hyd yn oed os oeddent, nid oes gwaith casglu/monitro/gwerthuso data ar waith i ganiatáu ar gyfer asesu a ydynt yn cael eu diwallu.<br>• Oherwydd natur bwrpasol y rhaglen, nid oes model cyflwyno unffurf ar draws Cymru, ac mae defnydd a modelau Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd a Thîm o Amgylch y Teulu yn amrywio rhwng Awdurdodau Lleol.<br>• Mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn ddefnyddiol fel crynodeb, ond nid yw'n cynnwys popeth y mae Teuluoedd yn Gyntaf yn ceisio ei gefnogi. |
| **Perthnasol?** | A yw amcan y prosiect yn amlwg yn berthnasol i anghenion y grŵp targed, fel y nodwyd gan unrhyw fath o ddadansoddiad o'r sefyllfa, astudiaeth sylfaenol, neu unrhyw dystiolaeth a dadl arall?  A yw'r grŵp buddiolwr arfaethedig wedi ei nodi'n glir? | • Mae ymyriadau a gaiff eu cyflwyno i'r teuluoedd yn rhai pwrpasol ac yn seiliedig ar anghenion teuluoedd unigol<br>• Mae'r Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd yn cynnwys asesiad cynnar i nodi angen a'r ffyrdd mwyaf priodol i'r teulu ddelio â hyn<br>• Caiff gwasanaethau eu comisiynu yn seiliedig ar angen lleol a nodwyd |
| | | • Nid oes diffiniad o'r anghenion y dylai teuluoedd eu dangos er mwyn cael cymorth gan y rhaglen. Byddai hyn yn cael ei benderfynu ar lefel leol<br>• Anodd asesu'r berthynas rhwng ymyriadau a chanlyniadau - yn gyfyngedig i wybodaeth ansoddol yn seiliedig ar amgylchiadau teuluol.<br>• Dim grŵp targed gan fod meini prawf cymhwysedd yn seiliedig ar anghenion a nodwyd yn lleol - mae'r rhaglen yn 'agored i bawb, yn dibynnu ar angen'.<br>• Dim grŵp cymharu clir i edrych ar y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf a'r rhai nad ydynt yn eu defnyddio. |
| **Credadwy?** | A oes cadwyn achosol barhaus, yn cysylltu'r asiantaeth ymyrrol ag effaith derfynol y pryder?<br><br>A yw'n debygol y gellid cyflawni amcan y prosiect, o ystyried yr ymyriadau a gynlluniwyd, yn ystod cyfnod y prosiect? A oes tystiolaeth o fannau eraill y gellid ei gyflawni? | • Mae cynllun y rhaglen yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn o fanteision cymorth ymyrraeth gynnar, gyfannol, i'r teulu cyfan.<br>• Mae'r canllawiau'n cefnogi defnyddio ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.<br>• Mae gwasanaethau'n cael eu comisiynu yn seiliedig ar angen lleol, gyda nodau Teuluoedd yn Gyntaf mewn golwg. |
| | | • Dim cyfnod penodol i'r prosiect - ar gael am gyhyd ag y mae teuluoedd ei angen. Nid yw'r effeithiau yn debygol o gael eu gweld ar unwaith, ond gallent ymddangos ar ôl i'r ymyriadau ddod i ben.<br>• Anodd mesur y berthynas rhwng ymyriadau ac effeithiau ar lefel genedlaethol. Mae pob awdurdod lleol yn comisiynu prosiectau yn seiliedig ar yr ardal leol.<br>• Mae rhywfaint o'r dystiolaeth debyg i Teuluoedd yn Gyntaf a ddefnyddiwyd yn y camau arloesol yn rhyngwladol, ac efallai na fydd modd cyffredinoli i gyd-destun Cymru.<br>• Canfyddiadau rhai rhanddeiliaid yw bod dyheadau Teuluoedd yn Gyntaf o ran gwella canlyniadau i'r boblogaeth yn uchel. |

| | | |
|---|---|---|
| **Dilysrwydd a dibynadwyedd?** | A oes dangosyddion *dilys* ar gyfer pob digwyddiad a ddisgwylir (lefelau allbwn, canlyniad ac effaith)? h.y. a fyddant yn crynhoi'r hyn y disgwylir iddo ddigwydd? A ydynt yn ddangosyddion *dibynadwy?* h.y. a fydd arsylwadau arsylwyr gwahanol yn dod i'r un casgliadau? | • Datblygwyd pedwar canlyniad poblogaeth cenedlaethol a nodwyd wrth gynllunio'r rhaglen drwy ddangosyddion Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau a lefel y boblogaeth i sefydlu a yw Teuluoedd yn Gyntaf ar y trywydd iawn o ran cyflawni'r canlyniadau poblogaeth.<br>• Dylai set graidd o ddangosyddion ganiatáu ar gyfer asesiad cenedlaethol o'r cynnydd a wnaed o ganlyniad i'r rhaglen<br>• Mae awdurdodau lleol yn adrodd ar y dangosyddion hyn i Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio'r un dull adrodd sy'n diffinio dangosyddion poblogaeth ac sy'n rhoi enghreifftiau i helpu awdurdodau lleol i ddarparu'r wybodaeth hon |
| | | • Mae rhai anghysondebau rhwng awdurdodau lleol o ran llenwi'r wybodaeth adrodd<br>• Methu mesur allbwn ar lefel unigolion, a thrwy hynny methu penderfynu a ellid priodoli unrhyw newid yn benodol i Teuluoedd yn Gyntaf.<br>• Mae awdurdodau lleol wedi cael eu hannog i ddatblygu eu dangosyddion lefel leol eu hunain, sy'n ei gwneud yn anos cael dealltwriaeth Cymru gyfan o berfformiad a chyflawniadau Teuluoedd yn Gyntaf.<br>• Mae Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau yn adnodd defnyddiol wrth ddarparu tystiolaeth reolaethol am atebolrwydd, ond nid yw'n cymryd lle gwerthuso ar lefel leol na chenedlaethol.<br>• Mae newid ar lefel y boblogaeth yn y dangosyddion yn debygol o fod dan ddylanwad nifer o ffactorau y tu hwnt i'r ymyriad. Nid yw'n bosibl neilltuo ei gyfraniad yn gwbl sicr. |
| **Profadwy?** | A yw'n bosibl nodi pa gysylltiadau yn y gadwyn achosol fydd yn fwyaf hanfodol o ran llwyddiant y prosiect, ac felly y dylai fod yn ganolbwynt cwestiynau gwerthuso? | • Cesglir gwybodaeth ar fesurau perfformiad, teuluoedd ag anghenion ychwanegol yn ymwneud ag anabledd ac atgyfeiriadau at Teuluoedd yn Gyntaf ar gyfer teuluoedd sydd â Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd / Tîm o Amgylch y Teulu |
| | | • Mae'r holl ymyriadau yn seiliedig ar angen y teulu, sy'n golygu bod y ddarpariaeth yn wahanol ar gyfer pob teulu<br>• Mae diffyg data ar lefel unigolion yn golygu nad yw'n bosibl profi cyflwr 'ôl-driniaeth' pawb sy'n elwa ar y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.<br>• Mae diffyg data ar lefel unigolion yn golygu nad yw'n bosibl profi cysylltiadau rhwng gwasanaethau. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyd-destun?** | A yw rhagdybiaethau am rolau chwaraewyr eraill y tu allan i'r prosiect wedi eu nodi'n glir? (galluogwyr a chyfryngwyr) A oes cynlluniau credadwy i fonitro'r rhain mewn unrhyw ffordd ymarferol? | • Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am gyflwyno'r rhaglen yn unol â chanllawiau'r rhaglen. Mae eu rôl o ran cyflwyno'r rhaglen wedi ei nodi'n glir ac yn ddealladwy.<br>• Mae Llywodraeth Cymru yn cael copïau o gynlluniau Teuluoedd yn Gyntaf Awdurdodau Lleol y gellir eu defnyddio i fonitro gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf awdurdodau lleol, ac mae'r rhain yn cael eu diweddaru drwy gydol y flwyddyn pan fydd newidiadau'n cael eu gwneud<br><br>• Mae cyflawni'n lleol yn golygu bod y modd o gyflwyno'r rhaglen yn amrywio ledled Cymru wrth i wasanaethau gael eu comisiynu mewn ymateb i anghenion lleol a nodwyd. Ni chesglir data cynhwysfawr am y gwahaniaethau rhwng darpariaethau lleol.<br>• Mae rhai newidiadau wedi digwydd o fewn oes bresennol y rhaglen, gan fod symud i ffwrdd o brosiectau sy'n canolbwyntio'n benodol ar gyflogaeth wedi digwydd mor ddiweddar â 2016. |
| **Cyson?** | A oes cysondeb yn y ffordd y mae'r Theori Newid yn cael ei disgrifio ar draws dogfennau lluosog prosiectau amrywiol (Dylunio, cynlluniau monitro a gwerthuso, cynlluniau gwaith, adroddiadau cynnydd, ac ati) | • Mae dealltwriaeth o amcanion y rhaglen yn gyson, gyda'r pwyslais ar y dull teulu cyfan.<br>• Datblygwyd Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd rhanbarthol a symudol unigol i'w ddefnyddio ym mhob awdurdod lleol.<br>• Datblygwyd Theori Newid ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf fel rhan o'r gwerthusiad<br><br>• Ni luniwyd damcaniaeth newid gyffredinol ar y dechrau, datblygu prosiectau camau arloesi<br>• Mae ymyriadau yn newid fesul awdurdod lleol yn dibynnu ar anghenion lleol a nodwyd<br>• Mae ymyriadau yn wahanol i bob teulu o ganlyniad i natur bwrpasol y rhaglen |
| **Cymhlethdod?** | A oes disgwyl rhyngweithio lluosog rhwng gwahanol gydrannau'r prosiect? [cymhlethu priodoli achosion a nodi effeithiau] Pa mor glir yw'r diffiniadau o'r rhyngweithiadau disgwyliedig? | • Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn hybu gweithio aml-asiantaethol cyfannol ac mae rhyngweithio lluosog yn ddisgwyliedig.<br>• Mae natur y rhyngweithiadau hyn yn amrywio gan ddibynnu ar sut mae'r rhaglen yn cael ei chyflwyno ar lefel leol.<br>• Mae effaith y rhyngweithiadau hyn yn anhysbys gan fod natur y rhaglen yn golygu bod y defnydd o wasanaethau'n amrywio.<br>• Ni ellir gwahanu effaith yr ymyriad oddi wrth ddylanwadau a ffactorau eraill, felly mae priodoli'n fater o bwys yn achos Teuluoedd yn Gyntaf.<br>• Mae graddau'r amrywiaeth mewn darpariaeth ac amrywiaeth mewn strwythurau llywodraethu yn awgrymu y bydd darpariaeth Teuluoedd yn Gyntaf yn fwy llwyddiannus mewn rhai ardaloedd lleol nag eraill. Mae rhywfaint o ansicrwydd hefyd a fydd yr holl fodelau yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cytundeb?** | I ba raddau mae gan wahanol randdeiliaid safbwyntiau gwahanol am amcanion y prosiect a sut y cânt eu cyflawni? Pa mor weladwy yw barn y rhanddeiliaid y gellid disgwyl iddynt fod â safbwyntiau gwahanol? | • Mae gan randdeiliaid ddealltwriaeth gyson o amcanion y rhaglen.<br>• Mae rhanddeiliaid yn cefnogi'r rhaglen ar lefel uchel, ac mae'n cael ei gwerthfawrogi'n fawr.<br>• Mae awdurdodau lleol yn croesawu datblygu modelau Tîm o Amgylch y Teulu a Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd sy'n addas i'r diben yn lleol, sy'n briodol i strwythurau cyflawni lleol ac sy'n adeiladu ar gryfderau presennol.<br><br>• Mae canllawiau cyflwyno nad ydynt yn rhagnodol ar gyfer y rhaglen a chyflawni ar sail anghenion lleol wedi arwain at amrywiadau sylweddol o ran cyflwyno'r rhaglen. |
| **2. Argaeledd gwybodaeth** | | |
| **A oes set gyflawn o ddogfennau ar gael?** | ... mewn cymhariaeth â'r hyn y gellid bod wedi ei ddisgwyl? E.e. Cynnig y Prosiect, Adroddiadau Cynnydd, Gwerthusiadau / asesiadau effaith, astudiaethau a gomisiynwyd | • Mae dogfennau cyflawn ar gael ar gyfer y rhaglen, gan gynnwys<br>  ○ Tri adroddiad gwerthuso blaenorol<br>  ○ Canllawiau ar y rhaglen<br>  ○ Tystiolaeth astudiaeth achos o werthusiadau blaenorol<br><br>• Gwerthuso a thystiolaeth yn berthnasol tan fis Medi 2015 yn unig<br>• Canllawiau diwygiedig yn cael eu drafftio ar hyn o bryd<br>• Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wrthi'n cael ei ddrafftio ar hyn o bryd. |
| **A oes mesurau sylfaenol yn bodoli?** | Os nad oes data sylfaenol ar gael eto, a oes cynlluniau penodol ar gyfer pryd y byddai data sylfaenol yn cael ei gasglu a pha mor ymarferol yw'r rhain?<br><br>Os yw data sylfaenol yn bodoli ar ffurf data arolwg, a yw'r data crai ar gael, ynteu dim ond detholiad o eitemau perthnasol ar hyn o bryd? A yw'r broses samplu yn glir? A yw'r offerynnau arolygu ar gael?<br><br>Os yw'r data sylfaenol ar ffurf ystadegau cenedlaethol neu is-genedlaethol, pa mor ddadelfenedig yw'r data? A oes data cyfres amser ar gael, ar gyfer y blynyddoedd cyn y prosiect? | • Awgrymwyd mewn gwerthusiadau blaenorol fod Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd yn adnodd i sefydlu llinell sylfaen ar gyfer mesur cynnydd a chofnodi'r 'cynnydd'.<br>• Roedd dadansoddiad cychwynnol o ddangosyddion poblogaeth y cytunwyd arnynt gydag awdurdodau lleol ym mlwyddyn gyntaf y gwerthusiad yn gweithredu fel llinell sylfaen ar gyfer mesur pedwar canlyniad y rhaglen mewn gwerthusiadau diweddarach.<br><br>• Nid yw dadansoddiad o ddata tueddiadau ar lefel y boblogaeth yn darparu llawer gipolwg ar y mecanweithiau sy'n gyrru ymagwedd fwy gwybodus yn ddamcaniaethol at werthuso'r gwasanaethau<br>• Ni chynhaliwyd arolwg sylfaenol o deuluoedd ar y cam gweithredu, ac mae'n bosibl y gellid gwneud hyn yn ôl-weithredol yn achos y rhai sydd â Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd / Tîm o Amgylch y Teulu ond nid yn achos pawb sy'n defnyddio gwasanaethau a ddarparwyd gan Teuluoedd yn Gyntaf |

| | | |
|---|---|---|
| **A oes data ar grŵp rheoli?** | A yw'n glir sut mae'r grŵp rheoli yn cymharu â'r grŵp ymyriad? A yw'r data crai ar gael ynteu dim ond ystadegau cryno? A oes modd adnabod aelodau'r grŵp rheoli, a chysylltu â hwy o bosibl? Pa mor aml y casglwyd data ar statws y grŵp rheoli? | • Nid yw'n hawdd adnabod y grŵp rheoli ar gyfer y rhai nad oes ganddynt Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd / Tîm o Amgylch y Teulu<br>• Un o'r prif anawsterau o ran gwerthuso yw natur 'hunan-ddewis' y rhaglen. Mae'n debyg bod grwpiau rheoli digonol yn amhosibl, o ystyried yr angen i reoli ar gyfer hyn, ochr yn ochr â'r ffordd y cynlluniwyd y rhaglen ac y rhoddwyd hi ar waith.<br>• Ni chesglir data ar sail unigol i olrhain defnydd o wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf.<br>• Defnyddiodd Awdurdodau Lleol eu systemau eu hunain i fesur y llinell sylfaen a chynnydd teuluoedd, ac nid oes modd eu cymharu ar draws pob un o'r 22 awdurdod. |
| **A yw data yn cael eu casglu ar gyfer yr holl ddangosyddion?** | A yw'n digwydd yn ddigon aml? A oes data sylweddol ar goll? A yw'r mesurau sy'n cael eu defnyddio yn ddibynadwy - h.y. A yw gwallau wrth fesur yn debygol o fod yn broblem? | • Mae mesurau perfformiad yn cael eu casglu am deuluoedd sy'n cwblhau Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd / sy'n llofnodi cynllun gweithredu Tîm o Amgylch y Teulu<br>• Cynhyrchir ystadegau cenedlaethol ar y dangosyddion a ddefnyddir o fewn Teuluoedd yn Gyntaf<br>• Roedd gwerthusiadau blaenorol yn datblygu Adnodd Canlyniadau Teulu i fesur canlyniadau 'meddal' a 'chaletach'. |
| | | • Ni chasglwyd gwybodaeth am deuluoedd sy'n defnyddio gwasanaethau prosiect a gomisiynwyd drwy Teuluoedd yn Gyntaf.<br>• Sefydlwyd dangosyddion ar lefel leol drwy atebolrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Nid yw canolbwyntio ar ganlyniadau poblogaeth, neu dystiolaeth ar gyfer atebolrwydd, ar ei ben ei hun yn cynhyrchu tystiolaeth o 'beth sy'n gweithio'.<br>• Mae teuluoedd yn diffinio eu nodau eu hunain i weithio tuag atynt yn ystod cyfnod y Tîm o Amgylch y Teulu, ac mae teuluoedd yn cyfrannu'n sylweddol at benderfynu ar y 'sgoriau' maent yn cofnodi yn yr Adnoddau Datblygu. Mae'r Adnodd Canlyniadau Teulu yn cofnodi data ar gyfer teuluoedd sy'n cael eu helpu gan y Tîm o Amgylch y Teulu yn unig, ac nid y rhai sy'n elwa ar brosiectau Teuluoedd yn Gyntaf yn unig.<br>• Ni chesglir data ar sail unigol i olrhain defnydd o wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf.<br>• Nid yw data'r Adnodd Canlyniadau Teulu yn cael ei gasglu gan fod y gwerthusiad a oedd yn defnyddio hwn wedi dod i ben. |
| **A oes data allweddol ar gael?** | A oes modd adnabod y buddiolwyr arfaethedig a gwirioneddol A oes cofnod o bwy oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau prosiect, pa weithgareddau oedd dan sylw a phryd y digwyddodd hynny? | • Casglwyd rhywfaint o ddata ar fesurau perfformiad yn achos y rhai a gwblhaodd Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd / a lofnododd Tîm o Amgylch y Teulu ond nid oes modd cysylltu hyn ag unrhyw ffynhonnell data arall.<br>• Cesglir data ar brosiectau a gomisiynwyd ond mae hyn yn amrywio o un Awdurdod Lleol i'r llall ac o un prosiect i'r llall.<br>• Roedd gwerthusiadau blaenorol yn defnyddio data a gasglwyd gan awdurdodau lleol (gan |

| | | |
|---|---|---|
| | | ddefnyddio Adnoddau Datblygu) i ddarparu asesiad cyffredinol o ba gyfran o deuluoedd sydd â phrofiad o Teuluoedd yn Gyntaf sydd wedi gweld canlyniadau gwell. |
| | | • Nid oes data ar gael ar ba wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf a ddefnyddiwyd gan unigolion.<br>• Materion ynghylch priodoli, gan na ellir gwahanu effeithiau'r ymyriad oddi wrth ddylanwadau a ffactorau eraill. Mae hyn yn arbennig o anodd ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf gan fod mentrau lluosog ac ymyriadau aml-asiantaethol sy'n ceisio darparu atebion cymhleth i broblemau 'cydgysylltiedig'.<br>• Mae Teuluoedd yn Gyntaf wedi ei ddarparu ar lefel leol yn gysylltiedig â chyflwyno ymyriadau eraill ar gyfer y teulu cyfan fel Dechrau'n Deg a'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd, ac o ganlyniad i hynny mae hyn yn amrywio'n sylweddol o un awdurdod i'r llall ar lefel leol. |
| **A oes data lle mae'r rhyw wedi ei ddadgyfuno ar gael?** | Yn y llinell sylfaen? Ar gyfer pob un o'r dangosyddion yn ystod camau ymyriadau'r prosiect? Yn y grŵp rheoli? Mewn unrhyw adolygiad neu broses canol tymor? | • Mae mesurau perfformiad yn cael eu cofnodi ar gyfer y rhai sy'n cwblhau Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd / Tîm o Amgylch y Teulu, felly mae rhywfaint o ddata ar gael |
| | | • Mae diffyg data yn golygu nad oes dadgyfuno ar gael ar lefel unigolion |
| **Os oes adolygiadau neu werthusiadau wedi cael eu cynnal...** | A yw'r adroddiadau ar gael? A oes modd cysylltu â'r awduron? A yw'r data crai ar gael? A yw'r broses samplu yn glir? A yw'r offerynnau arolygu ar gael? | • Mae gwerthusiadau blaenorol ar gael ar-lein ar wefan Llywodraeth Cymru, ynghyd â manylion yr awduron.<br>• Mae manylion am yr adnoddau arolygu a ddefnyddiwyd mewn gwerthusiadau blaenorol yn glir. |
| | | • Mae newidiadau staff yn golygu na fydd y prif awduron ar gael yn rhwydd o bosibl. |
| **A oes gan systemau monitro a gwerthuso sy'n bodoli'n barod y gallu i gyflenwi?** | Lle nad oes data ar gael eto, a oes gan y staff a'r systemau presennol y gallu i wneud hynny yn y dyfodol? A yw cyfrifoldebau, ffynonellau a materion cyfnodol wedi eu diffinio ac yn briodol? A yw'r gyllideb yn ddigonol? | • Dim materion o bwys ynghylch capasiti cyfredol o safbwynt yr awdurdodau lleol o ran yr wybodaeth y maent yn ei chofnodi ar hyn o bryd |
| | | • Nid oes data ar gael ar lefel unigolion ac ar gyfer yr holl hawliau y gall y plant a'r teulu ymgysylltu â hwy.<br>• Mae pryderon nad oes digon o adnoddau (staff a chyllideb) i wella systemau monitro. |

| | | |
|---|---|---|
| **3. Cyd-destun y sefydliad** | | |
| **Hygyrchedd ac argaeledd o safbwynt rhanddeiliaid** | A oes risgiau diogelwch corfforol? A fydd y tywydd yn gyfyngiad?<br>A yw staff a rhanddeiliaid allweddol yn debygol o fod yn bresennol, ynteu'n absennol ar wyliau neu secondiad? A ellir dibynnu ar yr argaeledd a nodir? | • Ychydig o risg, neu ddim o gwbl, ynghlwm wrth gysylltu â rhanddeiliaid.<br>• Mae'n hawdd cysylltu â'r holl randdeiliaid.<br>• Mae'n hawdd cysylltu â'r teuluoedd hynny sydd â Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd / Tîm o Amgylch y Teulu<br><br>• Risgiau posibl yn gysylltiedig â chanfod ac adnabod pob defnyddiwr gwasanaeth (os oes angen). Byddai angen ymyriadau gan yr awdurdod lleol er mwyn gwneud hyn. |
| **Yr adnoddau sydd ar gael i wneud y gwerthusiad?** | Yr amser sydd ar gael yn gyffredinol ac yn y wlad? Amseriad yr holl weithgareddau eraill o fewn yr amserlen? Y cyllid sydd ar gael ar gyfer y tîm perthnasol, ac am ba hyd? Y bobl pobl sydd â'r sgiliau angenrheidiol ar gael ar hyn o bryd? | • Derbynnir bod y gwerthusiad o ffocws newydd Teuluoedd yn Gyntaf sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yn ofynnol, ac felly mae'n debygol.<br><br>• Nid yw'n hysbys a oes arian ar gyfer gwerthusiad, er y derbynnir y bydd gwerthusiad o'r rhaglen ar ei newydd yn angenrheidiol.<br>• Mae gwerthusiadau blaenorol wedi dangos capasiti cyfyngedig gan gontractwyr o ran unigolion sydd â sgiliau siarad Cymraeg. |
| **A yw'r amseru'n iawn?** | A oes cyfle i werthusiad gael dylanwad? A yw'r prosiect wedi cronni digon o brofiad ymarferol fel bod modd dysgu gwersi defnyddiol? Os cafodd y gwerthusiad ei gynllunio ymlaen llaw, a yw'r gwerthusiad dal yn berthnasol? | • Defnyddiwyd tystiolaeth werthuso i helpu i bennu ffocws newydd i'r rhaglen, a byddai deunydd newydd yn cael ei ddefnyddio i lywio gwaith parhaus ynghylch mireinio a gwella'r ffordd o gyflawni'r rhaglen.<br>• Mae gwerthusiadau blaenorol wedi darparu gwybodaeth ar weithredu a chyflwyno ac wedi ceisio dadansoddi effaith.<br>• Gan fod Teuluoedd yn Gyntaf ar hyn o bryd yn cael ffocws newydd, byddai'n amser buddiol i ystyried gwerthuso er mwyn cyflwyno prosesau casglu data newydd<br><br>• Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ffocws newydd ar hyn o bryd, gan gael gwared ar brosiectau sydd â ffocws penodol ar gyflogaeth, ac mae mewn cyfnod trosiannol ar hyn o bryd.<br>• Mae amrywiadau lleol o ran darpariaeth yn lleihau dylanwad unrhyw ganfyddiad, oherwydd mae'n bosibl na fyddant bob amser yn berthnasol. |
| **Gofynion cydlynu?** | Faint o roddwyr eraill, adrannau'r llywodraeth, neu gyrff anllywodraethol sydd angen cymryd rhan neu sydd eisiau cymryd rhan? Pa fathau o gydlynu sy'n bosibl a/neu sy'n ofynnol? | • Mae rhanddeiliaid yn buddsoddi'n helaeth yn y rhaglen ac wedi cymryd rhan weithredol mewn gwerthusiadau blaenorol. Mae'n rhesymol disgwyl i'w cyfranogiad barhau yn y dyfodol.<br>• Yr Awdurdodau Lleol sy'n perchenogi cyflwyno Teuluoedd yn Gyntaf, gan gynnwys Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd / Tîm o Amgylch y Teulu a phrosiectau a gomisiynwyd<br><br>• Bydd nifer y cyrff anllywodraethol fesul awdurdod lleol yn amrywio. |
| **4. Galw** | | |
| **Pwy sydd eisiau gwerthusiad?** | A yw'r prif ddefnyddwyr wedi eu nodi'n glir? A allant chwarae rhan wrth ddiffinio'r gwerthusiad? A fyddant yn | • Staff mewnol Llywodraeth Cymru<br>  ○ Yn ymwneud â diffinio dulliau gwerthuso<br>• Gweinidogion Llywodraeth Cymru<br>  ○ Nid ydynt yn rhan o'r broses werthuso, |

| | | |
|---|---|---|
| | cymryd rhan mewn proses werthuso? | ond byddant yn cymeradwyo arian a dulliau gweithredu<br>• Awdurdodau lleol<br>  ○ Yn debygol o fod yn barod i fod yn rhan o ddiffinio'r dull gwerthuso.<br>• Darparwyr gwasanaethau cyhoeddus<br>  ○ Yn debygol o fod â diddordeb yng nghanfyddiadau unrhyw werthusiad, a gallant fod yn rhan o'r broses<br>• Sefydliadau anllywodraethol<br>  ○ Ymwneud â chyflwyno prosiectau mewn awdurdodau lleol fel rhan o'r prosiectau a gomisiynwyd dan Teuluoedd yn Gyntaf<br>  ○ Yn debygol o fod yn rhan o unrhyw werthusiad |
| **Beth mae rhanddeiliaid eisiau ei wybod?** | Pa gwestiynau gwerthuso sydd o ddiddordeb i bwy? A yw'r rhain yn realistig, o ystyried cynllun y prosiect ac argaeledd tebygol data? A ellir eu blaenoriaethu? Sut mae pobl eisiau gweld y canlyniadau'n cael eu defnyddio? A yw hyn yn realistig? | • Staff Mewnol Llywodraeth Cymru/Gweinidogion Cymru:<br>  ○ Effeithiau'r rhaglen<br>  ○ A yw'n cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig?<br>  ○ A ellir ei gwella / mireinio?<br>• Staff Mewnol Llywodraeth Cymru/awdurdodau lleol:<br>  ○ A yw elfennau penodol yn gweithio<br>  ○ Yr hyn sy'n fwyaf llwyddiannus?<br>  ○ Pa fodelau sydd fwyaf llwyddiannus?<br>  ○ Yr hyn sy'n lleiaf llwyddiannus?<br>  ○ Sut mae ffocws newydd Teuluoedd yn Gyntaf wedi effeithio ar gyflawni? |
| | | • Heriau o ystyried y diffyg data sydd ar gael a diffyg cysondeb y data.  Nid yw bob amser yn fesuradwy.<br>• Mae'r ddibyniaeth drom ar ddata ansoddol yn cyfyngu ar ansawdd unrhyw werthusiad o effeithiau'r rhaglen |
| **Pa fath o broses werthuso mae rhanddeiliaid ei heisiau?** | Pa ddyluniadau sydd o ddiddordeb i randdeiliaid? A allai'r rhain weithio, o ystyried y gwerthusiad o'r cwestiynau sydd o ddiddordeb ac argaeledd tebygol yr wybodaeth, a'r adnoddau sydd ar gael? | • Mae gwerthusiadau blaenorol wedi cael eu gwerthfawrogi'n fawr, er bod llawer yn ansoddol eu natur.<br>• Mae data ansoddol yn ymarferol gan nad oes angen grwpiau rheoli ac mae'n gallu rhoi gwybodaeth gynhwysfawr.<br>• Mae awydd i ddangos effeithiau'r rhaglen drwy werthusiad effaith. |
| | | • Mae data ansoddol yn cyflwyno rhai heriau wrth lunio casgliadau pendant am gynnydd.<br>• Byddai angen data meintiol er mwyn gwerthuso canlyniadau. Mae'r cynlluniau hyn mewn perthynas â Teuluoedd yn Gyntaf yn llai ymarferol oherwydd y diffyg data sydd ar gael, ac mae'r anghysondeb o ran cyflwyno'r rhaglen a diffyg grŵp rheoli yn ei gwneud yn anodd casglu data cymharol. |
| **Pa faterion moesegol sy'n bodoli?** | A ydynt yn hysbys neu a oes modd gwybod amdanynt? A ydynt yn debygol o fod yn hylaw? Pa gyfyngiadau a ddaw yn eu sgil? | • Mae materion moesegol yn ymwneud â theuluoedd yn gyntaf (grwpiau agored i niwed, trosglwyddo data, storio data) i gyd yn creu cyfyngiadau, ond mae modd eu goresgyn drwy weithdrefnau cywir a thrwy gadw at ganllawiau moesegol a deddfwriaeth diogelu data. |
| | | • Mae nifer o faterion moesegol yn codi:<br>  ○ Grwpiau agored i niwed - mae llawer o'r buddiolwyr yn blant ifanc neu'n |

| | | |
|---|---|---|
| | | oedolion sy'n agored i niwed - er enghraifft, amlygiad i gam-drin domestig<br>○ Trosglwyddo data - mae'r nifer fawr o sefydliadau darparu yn golygu bod trosglwyddo data sensitif yn digwydd yn rheolaidd.<br>○ Storio data - er mwyn gwerthuso Teuluoedd yn Gyntaf, bydd angen casglu a storio data adnabyddadwy |
| **Beth yw'r risgiau?** | A fydd rhanddeiliaid yn gallu rheoli canfyddiadau negyddol? A yw profiadau gwerthuso blaenorol wedi rhagfarnu cyfranogiad tebygol rhanddeiliaid? | • Mae rhanddeiliaid wedi ymateb i werthusiadau blaenorol mewn modd adeiladol, ac wedi defnyddio'r dystiolaeth i wneud newidiadau i'r rhaglen. |
| | | • Mae gan randdeiliaid farn gadarnhaol iawn ynghylch y rhaglen, a lle nad yw canlyniadau gwerthuso yn adlewyrchu'r canfyddiadau, gall hyn fod yn brofiad digalon. |

5.5. Mae'r rhestr wirio yn asesu gwerthusadwyedd Teuluoedd yn Gyntaf, a pha mor ymarferol a defnyddiol yw gwerthusiad. Mae nifer o faterion yn ymwneud â'r wybodaeth sydd ar gael a dyluniad y rhaglen yn golygu ei bod yn anodd gwerthuso'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.

5.6. Mae rhai o'r prif bwyntiau cadarnhaol a ddysgwyd yn cynnwys y ffaith bod cynllun y rhaglen yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, a'r rôl mae tystiolaeth o werthusiadau wedi'i chwarae wrth siapio'r rhaglen a gwneud newidiadau iddi.

5.7. Mae un o'r prif elfennau sy'n gwneud y rhaglen yn anodd ei gwerthuso yn ymwneud â'r data sydd ar gael – yn benodol, na ellir cadarnhau pa rai o wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf mae unigolion wedi'u defnyddio. Mae hyn yn golygu nad yw'n bosibl gwerthuso canlyniadau nac effeithiau'r rhaglen ar hyn o bryd, heb gasglu data ychwanegol.

5.8. Hefyd, nid yw'r ffocws ar ganlyniadau poblogaeth ynddo'i hun yn arwain at dystiolaeth o effeithiau'r ymyriad, na sut gallai fod wedi cael effaith. Ar y gorau, gallai newidiadau o ran dangosyddion poblogaeth awgrymu bod rhywbeth wedi cael rhywfaint o effaith, a hynny bron bob amser ar y cyd â ffactorau eraill – rhai rydym yn gwybod amdanynt, a rhai nad ydym yn gwybod amdanynt. Gallai hynny roi awgrym o faint posibl unrhyw gyfraniad, ond ni all dangosyddion o'r fath gadarnhau dim byd o ran sut gallai unrhyw ymyriad fod wedi gweithio.

5.9. Nid oes grŵp gwrthffeithiol realistig ar gael i'w gymharu â'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf, ac mae hynny'n rhwystr mawr i werthusiad cadarn. Mae'r ffaith bod gan bob Awdurdod Lleol nodau gwahanol ar gyfer y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, a ffordd wahanol o'i rhoi ar waith, yn dwysau'r broblem hon.

5.10. Mae'n anodd asesu a yw'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn gweithio. Mae'n her ceisio ateb unrhyw gwestiynau am effeithiau a chanlyniadau teuluoedd sy'n defnyddio'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, oherwydd ni ellir dweud yn bendant ar hyn o bryd pa wasanaethau mae'r teuluoedd wedi'u defnyddio.

## 6. Dulliau sy'n bosibl ar hyn o bryd

6.1 Bum mlynedd yn ôl, cyhoeddwyd gwerthusiad cenedlaethol o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Mae camau'r gwerthusiad wedi'u nodi isod, ac yn crynhoi prif fanteision y gwaith a'i gyfyngiadau.

| Dulliau | Manteision | Cyfyngiadau |
|---|---|---|
| **Teuluoedd yn Gyntaf: Adolygiad Cam Arloeswyr (2012)**<br>http://gov.wales/docs/dhss/publications/120924familiescy.pdf | | |
| • 89 cyfweliad dros y ffôn / wyneb yn wyneb / trafodaeth grŵp ffocws | • Cyfoeth o ddata ansoddol ar y gwaith o bontio rhwng Cymorth a'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn yr ardaloedd arloesi, a rhoi'r rhaglen ar waith<br>• Yn nodi buddion i'r setiau dysgu sydd wedi'u sefydlu yn y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf | • Yn rhy gynnar i roi data cywir am lefel yr angen am wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf |
| **Gwerthusiad o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf: Adroddiad Blwyddyn 1 (2013)**<br>http://gov.wales/docs/caecd/research/131219-national-evaluation-families-first-year-1-report-en.pdf | | |
| • Ymgynghoriadau a chyfweliadau ansoddol manwl â rhanddeiliaid<br>• Ymchwil ddesg, gan gynnwys adolygiadau o dystiolaeth ddogfennol o gynlluniau gweithredu awdurdodau lleol, dogfennau polisi ac ystadegau poblogaeth | • Yn rhoi asesiad o sail resymegol y rhaglen, ac adolygiad o'r cynnydd a wnaed gan Awdurdodau Lleol yn ystod y flwyddyn gyntaf<br>• Yn meithrin dealltwriaeth sylfaenol o'r broses o roi'r rhaglen ar waith<br>• Canfyddiadau blwyddyn 1 wedi'u croesgyfeirio ag ystod eang o ddata sylfaenol a gasglwyd yn y gwerthusiadau o'r ail a'r drydedd flwyddyn | • Oherwydd amseriad y gwerthusiad a phryd cafodd y rhaglen ei rhoi ar waith, roedd yn rhy gynnar i asesu effeithiolrwydd y gwahanol fodelau a oedd yn cael eu rhoi ar waith gan wahanol awdurdodau lleol<br>• Yn canolbwyntio ar y canfyddiadau o ran dyluniad y rhaglen a'r broses o'i rhoi ar waith<br>• Nid yw'n rhoi sylw i gwestiynau ynghylch effaith ac effeithiolrwydd |
| **Gwerthusiad o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf: Adroddiad Blwyddyn 2 (2014)**<br>http://gov.wales/docs/caecd/research/2014/140612-evaluation-families-first-year-2-en.pdf | | |
| • Arolwg Rhanddeiliaid<br>• Astudiaethau achos awdurdodau lleol a theuluoedd – Cam 1<br>• Ymchwil desg o ystadegau poblogaeth | • Yn rhoi asesiad o'r dystiolaeth gynnar o'r effeithiau a'r canlyniadau<br>• Yn nodi arferion da | • Nid yw'n rhoi sylw i gwestiynau ynghylch effaith ac effeithiolrwydd<br>• Mae teuluoedd sy'n rhan o astudiaeth achos yn fwy tebygol o ymwneud llawer mwy â'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf na theulu arferol<br>• Mae angen dull ansoddol ar gyfer y rhaglen gan na ellir cymharu ag ardaloedd lleol addas sydd ddim yn cynnal y rhaglen |

| Gwerthusiad o’r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf: Adroddiad Blwyddyn 3 (2015) http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/150930-evaluation-families-first-year-3-en.pdf | | |
|---|---|---|
| • Arolwg ac ymgynghoriadau â rhanddeiliaid<br>• Adnoddau mesur datblygiad a luniwyd gan werthuswyr – ‘Adnodd Canlyniadau Teuluoedd’ | • Yn adolygu sail resymegol y rhaglen<br>• Yn asesu newidiadau mewn prosesau<br>• Yn rhoi math o ddadansoddiad o’r effaith ar ddefnyddwyr y gwasanaeth a’r boblogaeth<br>• Yn defnyddio Adnodd Canlyniadau Teuluoedd i gyfuno data a gasglwyd gan awdurdodau lleol er mwyn rhoi asesiad cyffredinol o ba gyfran o’r teuluoedd sy’n defnyddio gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf sydd wedi gweld gwelliant mewn canlyniadau<br>• Roedd llawer o’r dulliau a ddefnyddiwyd yn yr Adnodd Canlyniadau Teuluoedd yn seiliedig ar raddfeydd wedi’u dilysu’n academaidd | • Casglu canfyddiadau staff i asesu effaith Teuluoedd yn Gyntaf ar deuluoedd<br>• Nid yw’n rhoi data ystadegol ac ni all roi tystiolaeth o’r effaith<br>• Oherwydd y ffordd y cafodd y data eu casglu, nid oedd rhai awdurdodau lleol wedi cyfrannu data at rai meysydd gan nad oedd eu hadnoddau mesur datblygiad yn mesur dangosyddion perthnasol i’r maes hwnnw. |

6.2 Mae dyluniad y rhaglen wedi hwyluso’r gwerthusiadau sydd wedi bod yn rhai o natur ansoddol at ei gilydd, sydd wedi atal asesiadau meintiol o well ansawdd.

6.3 Mae Teuluoedd yn Gyntaf wedi newid pwyslais gwaith monitro awdurdodau lleol. Yn hytrach na mesur allbynnau, maent yn mesur ansawdd y gwaith o gyflawni’r rhaglen er mwyn sbarduno gwelliannau parhaus mewn gwasanaethau, ac ystyried canlyniadau teuluoedd yn erbyn amcanion penodol i sicrhau canlyniadau gwell ac y mae modd eu mesur i deuluoedd. Mae Teuluoedd yn Gyntaf wedi mabwysiadu set o ddulliau monitro gyda’r bwriad y byddent yn helpu i fesur cynnydd hefyd:

- Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau: Dull o gasglu data yn erbyn canlyniadau sydd wedi’u diffinio ymlaen llaw. Mae’r dull hwn wedi’i gynnwys yn nhempled cynllun gweithredu’r rhaglen yr oedd yn rhaid i awdurdodau lleol ei lenwi fel un o’r gofynion cyllid a diweddaru yn 2012.
- Cardiau adrodd: Adnodd i gasglu gwybodaeth am berfformiad (mae’n cael ei ddiweddaru bob chwarter yn aml iawn) sy’n ymwneud yn benodol â phrosiectau a gomisiynwyd.
- Adnoddau Mesur Datblygiad: Fframwaith i gasglu canlyniadau a dangosyddion teuluoedd dros gyfnod y rhaglen. Mae’n rhoi cyfle i gasglu gwybodaeth am gynnydd ac i’w diweddaru.

6.4 Er bod Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau yn adnodd defnyddiol wrth ddarparu tystiolaeth reolaethol am atebolrwydd, nid yw’n cymryd lle gwerthuso ar lefel leol na chenedlaethol. Hefyd, er bod Adnoddau Mesur Datblygiad yn ffordd effeithiol o roi syniad i deuluoedd ac ymarferwyr o gynnydd teuluoedd unigol, maent yn llai gwerthfawr fel ffynhonnell o ddata monitro cyson ar gyfer yr holl deuluoedd ac

awdurdodau lleol gan eu bod yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd sydd braidd yn oddrychol.

6.5 Oherwydd y data sydd ar gael a dyluniad y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, nid yw rhai dulliau gwerthuso yn bosibl, gan gynnwys Hap-dreial wedi'i Reoli. Mae'r dull hwn yn cael ei ystyried fel y ffordd fwyaf cadarn o bennu achosiaeth – yn yr achos hwn, effeithiau gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf ar y teuluoedd sy'n eu defnyddio.

6.6 Wrth ystyried y dulliau a ddefnyddiwyd mewn gwerthusiadau blaenorol a'r rhai sydd ddim yn bosibl, gellid ystyried dulliau eraill ar gyfer gwerthusiadau yn y dyfodol. Mae'r rhain wedi'u nodi isod, fel maent yn berthnasol i'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ar ei ffurf bresennol.

**(a) Dadansoddiad pwynt terfynu atchweliad**

6.7 Gyda'r dull dadansoddi hwn, mae angen i raglen gynnwys y boblogaeth gyfan a chael meini prawf cymhwysedd parhaus, h.y. pwynt terfynu ar raddfa, fel oedran neu fynegai amddifadedd. Yna bydd yn cymharu canlyniadau'r rhai sydd ond yn gymwys o drwch blewyn (h.y. sydd fymryn o dan y pwynt terfynu) a'r rhai sydd fymryn yn brin o'r meini prawf cymhwysedd.

6.8 Tybir bod y ddau grŵp hyn yn debyg o ran eu nodweddion, ac felly bod unrhyw wahaniaethau o ran eu canlyniadau yn deillio o'r rhaglen. Mae hyn yn creu amcangyfrif ar gyfer y grŵp gwrthffeithiol drwy gymharu grwpiau tebyg iawn, ond sydd ddim yn union yr un fath. Gellid defnyddio'r dull hwn ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf, drwy gymharu canlyniadau teuluoedd nad oeddent yn gymwys i gael help gan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf a'r rhai sydd wedi cael help gan ddefnyddio graddfa'r enfys[3]

6.9 Fodd bynnag, oherwydd natur Teuluoedd yn Gyntaf, mae'r rhai sydd ond yn gymwys o drwch blewyn ar gyfer gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf yn cael eu gosod rhwng 'atal' ac 'amddiffyn'. Byddai'n anodd datblygu pwynt terfynu mympwyol i rannu teuluoedd yn grwpiau.

**(b) Technegau Cyfateb**

6.10 Mae technegau cyfateb yn dibynnu ar ddefnyddio data am unigolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen ac am bobl sydd ddim yn rhan o'r rhaglen. Mae'n nodi'r rhai sy'n rhan o'r rhaglen sydd â nodweddion tebyg i'r rhai sydd ddim yn rhan o'r rhaglen. Os oes ganddynt nodweddion tebyg, tybir bod unrhyw wahaniaethau rhwng eu canlyniadau yn deillio o'r ffaith eu bod yn ymwneud â'r rhaglen.

6.11 Mae'r dull hwn yn gallu dangos a oes gwahaniaethau rhwng grwpiau, ond nid yr hyn sy'n achosi hynny. Mae gofyn bod y grwpiau'n agos iawn at ei gilydd wrth gyfateb er mwyn gallu dod i'r casgliad yn rhesymol mai'r rhaglen sydd wedi gwneud y gwahaniaeth o bosibl.

6.12 Gallai arolwg ar raddfa fawr gasglu'r data angenrheidiol er mwyn defnyddio'r dull hwn. Fodd bynnag, byddai gofyn bod yr unigolion hynny sy'n defnyddio gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf yn ymwybodol bod y gwasanaethau maent yn eu defnyddio yn perthyn i'r rhaglen. Gan fod y rhaglen yn ceisio cynnig cefnogaeth ddi-dor gydlynol, nid yw bob amser yn glir i deuluoedd bod y gwasanaethau maent

[3] http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/111219-families-first-guide-cy.pdf – tudalen 5

yn eu defnyddio yn perthyn i'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, oni bai eu bod yn rhan o gynllun Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd neu Dîm o Amgylch y Teulu.

**(c) Dadansoddiad gwahaniaethau**

6.13 Mae'r dull hwn yn ceisio pennu effaith drwy gymharu'r newid a arsylwyd yn y grŵp triniaeth â'r newid a arsylwyd mewn grŵp cymharu addas. Mae'r dull hwn yn cymryd bod y gwahaniaethau, sydd ddim yn gysylltiedig â'r ymyriad, rhwng y grŵp triniaeth a'r grŵp cymharu yn aros yr un fath dros amser. Mae'n rhoi amcangyfrif o'r hyn a fyddai wedi digwydd pe na bai'r ymyriad wedi digwydd.

6.14 Ni ellir defnyddio'r dull hwn i roi amcangyfrif dibynadwy ynglŷn ag effaith Teuluoedd yn Gyntaf, oherwydd mae'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei chyflwyno mewn ffyrdd amrywiol iawn o un awdurdod lleol i'r llall, felly ni ellir disgwyl i'r gwahaniaethau rhyngddynt aros yn gyson. Hefyd, mae diffyg data 'llinell sylfaen' priodol yn golygu ei bod yn amhosib gwybod beth oedd y sefyllfa 'cyn triniaeth'.

6.15 Mae llawer o'r dulliau hyn wedi cael eu hystyried mewn gwerthusiadau blaenorol. Heb newidiadau i'r data a gesglir am deuluoedd sy'n defnyddio gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf, dim ond atgynhyrchu gwaith ymchwil blaenorol y bydd modd i werthusiadau'r dyfodol ei wneud. Mae'r cwestiynau nad oes modd eu hateb heb newid y data sydd ar gael yn cynnwys;

- Lefel yr ymateb i wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf gan unigolion a theuluoedd
- Sut mae'r lefel ymgysylltu â gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf yn dylanwadu ar ganlyniadau
- Beth yw'r prosesau rhyngweithio rhwng y gwahanol wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf
- Beth yw effeithiau tymor hwy Teuluoedd yn Gyntaf
- Beth yw demograffeg y rhai a chanddynt lefelau ymgysylltu uwch neu is â gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf.
- A yw gwahanol nodweddion unigolion yn gysylltiedig â gwahanol ganlyniadau i'r rhai sy'n ymgysylltu â gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf

## 7. Dulliau sy'n bosibl yn y dyfodol

7.1 Mae'r rhestr wirio ar gyfer gwerthuso yn dangos yn glir bod tair prif her wrth werthuso Teuluoedd yn Gyntaf: prinder data ynghylch ymgysylltu â gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf ar lefel yr unigolyn, diffyg grŵp gwrthffeithiol realistig a'r ffaith bod gwahanol Awdurdodau Lleol yn cyflwyno'r rhaglen yn wahanol. Heb i newidiadau sylweddol gael eu gwneud i'r rhaglen neu'r broses o fonitro a chasglu data, ni ellir gwneud dim byd i roi sylw i'r problemau y mae'r ddwy her olaf yn eu codi. Fodd bynnag, mae'n bosibl dechrau casglu data ychwanegol i geisio cael gwerthusiad mwy cadarn.

7.2 Petai modd casglu data ar ddefnydd unigolion o wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf, byddai gwerthusiadau'n gallu ateb cwestiynau ar effeithiau'r rhaglen. Dylai'r data gynnwys defnydd o'r gwasanaeth ar lefel yr unigolyn, ynghyd â newidynnau demograffig fel: oed, maint y teulu, statws cyflogaeth rhiant / cymwysterau a maint yr aelwyd.

7.3 Yn ogystal â defnyddio gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf, byddai'n fuddiol casglu gwybodaeth i weld faint mae'r unigolion yn ei ddefnyddio ar ymyriadau eraill, fel Dechrau'n Deg neu Cymunedau yn Gyntaf. Byddai hyn wedyn yn rhoi cyfle i allu deall yn well a yw unrhyw newidiadau yn deillio o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn unig, ynteu a ydynt yn fwy tebygol o ddeillio o ymyriadau eraill ar y cyd â Teuluoedd yn Gyntaf. Ar y llaw arall, efallai nad oes unrhyw ymyriadau cyffelyb wedi arwain at newidiadau.

7.4 Er y byddai data unigolion yn rhoi cyfle i ateb pob math o gwestiynau ymchwil, fyddai casglu data ddim yn hawdd. Mae'n debygol iawn y byddai angen llawer iawn o adnoddau gan Lywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol. Yn ogystal â hynny, ni fydd casglu data ychwanegol gan yr unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau'r rhaglen yn mynd i'r afael â'r broblem o ddiffyg grŵp gwrthffeithiol realistig.

7.5 Byddai modd casglu data ar lefel unigolion drwy gynnal arolwg o'r rhai sydd wedi cael budd o raglen Teuluoedd yn Gyntaf neu drwy ddatblygu systemau casglu data ychwanegol i'w hychwanegu at y data mae awdurdodau lleol wedi'u casglu'n barod gan bawb sydd wedi bod yn rhan o'r rhaglen. Mae manteision a risgiau'r ddau opsiwn yn cael eu hystyried isod.

**1. Arolwg Sampl**

**Manteision**

- Deall lefelau ymgysylltu â'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ar lefel genedlaethol
- Rhoi cipolwg ar faint sy'n defnyddio pob gwasanaeth
- Gyda sampl digon mawr, mae'n bosibl y byddai modd pennu'r rhyngweithio rhwng gwasanaethau
- Gallai arolwg hydredol ddilyn datblygiad a chanlyniadau dros amser
- Gallai arolwg trawstoriadol gymharu canlyniadau ar gyfer grwpiau ar wahanol adegau yn y rhaglen

**Risgiau**

- Mae angen sampl digon mawr er mwyn cael dadansoddiad dibynadwy
- Mae angen dod o hyd i grŵp cymharu addas
- Byddai angen ei ailgynnal er mwyn asesu carfannau gwahanol newydd neu garfannau yn y dyfodol
- Cyfradd ymateb wael a/neu gyfradd gadael cyn gorffen wael[4] (os yw'n arolwg hydredol)
- Rhagfarn bosibl ymysg y rhai sydd fwyaf parod i ymgysylltu â'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf

[4] Mae arolygon hydredol yn ceisio holi'r un bobl ar wahanol adegau dros gyfnod – dros flynyddoedd lawer yn aml iawn. Fodd bynnag, gallai rhai ohonynt benderfynu gadael y gwaith ymchwil cyn i'r arolwg ddod i ben. Ystyr y gyfradd gadael cyn gorffen ydy'r gyfran sydd ddim yn cwblhau'r arolwg cyfan.

- Mae'n bosibl na fydd hyn yn addas ym mhob awdurdod oherwydd amrywiadau o ran y ffordd mae'r rhaglen yn cael ei rhoi ar waith

**2. Casglu data ar lefel unigolion**

**Manteision**

- Gallu asesu effeithiau posibl Teuluoedd yn Gyntaf ar sail unigolion
- Data manwl am ymgysylltu â gwasanaethau'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf
- Gwybodaeth gyfredol a pharhaus am yr union niferoedd sy'n manteisio ar bob hawl
- Gallu pennu'r rhyngweithio rhwng gwasanaethau
- Gallu cysylltu'r data â setiau data eraill, a fyddai'n golygu bod modd dadansoddi canlyniadau ehangach
- Gallu dilyn y rhai sy'n cymryd rhan drwy'r rhaglen, a'u cymharu ar wahanol adegau yn y rhaglen

**Risgiau**

- Diogelu data a sensitifrwydd yr eitemau a fydd yn cael eu casglu. Byddai angen cael caniatâd i rannu'r data
- Mae angen ystyried a datblygu adnoddau storio a rheoli data
- Byddai angen i'r broses o gasglu data fod yn gyson ar draws yr Awdurdodau Lleol
- Dilysrwydd y data, ac ymarferoldeb y broses o'u casglu
- Data'n cael eu casglu gan bobl sydd ddim yn ymchwilwyr, a allai arwain at ragfarnau systematig
- Efallai na fydd gan rai awdurdodau lleol y systemau angenrheidiol i gasglu data ar lefel unigolion, yn y tymor byr beth bynnag

7.6 Mae'n bosibl y bydd yn her gweithredu'r systemau angenrheidiol i gasglu data ar lefel unigolion, ac mae'n bosib na fydd defnyddio arolwg yn darparu'r data angenrheidiol. Hefyd byddai angen i unrhyw system newydd ar gyfer casglu data ystyried sut mae pob awdurdod lleol yn rhoi'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ar waith, a chaniatáu dull wedi'i safoni i gasglu data y byddai modd i bob awdurdod lleol ei ddefnyddio.

7.7 Mae manteision gwirioneddol yn bosibl a risgiau os byddwn yn dal i beidio â chasglu data. Heb wybod beth yw gwir effeithiau'r rhaglen, ni ellir gwybod a yw'n werth da am arian. Er mwyn gweld lle gellir gwneud gwelliannau posibl, mae angen deall effeithiau'r gwasanaethau'n llawn drwy gasglu data ar lefel unigolion.

## 8. Casgliadau

8.1. Nod yr adroddiad hwn oedd gweld:

- A yw'n debygol y bydd effeithiau
- A yw'n ymarferol mesur effeithiau
- A fyddai asesiad effaith yn ddefnyddiol

8.2. Cafodd y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ei datblygu'n unol â'r dystiolaeth orau a oedd ar gael, ac mae'n dal i gael ei datblygu felly. Mae hynny'n awgrymu ei bod yn debygol y bydd effeithiau manteisiol i deuluoedd. Fodd bynnag, nid yw'n glir pa effeithiau ddylai'r rhai fod o reidrwydd, oherwydd y prinder data am y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau a gynigir fel rhan o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.

8.3. Yn sgil y prinder data hynny, mae gwerthusiadau blaenorol wedi mabwysiadu dulliau ansoddol yn bennaf ac wedi cael eu cyfyngu gan ddyluniad y rhaglen a'r ffordd mae'n cael ei chyflwyno ym mhob awdurdod lleol.

8.4. Hefyd, does dim modd dod o hyd i grŵp gwrthffeithiol ar hyn o bryd oherwydd y ffordd y cafodd y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ei rhoi ar waith ledled Cymru. Does dim ateb hawdd ar gyfer hynny, gan fod y rhaglen yn cael ei rhoi ar waith mewn ffordd unigryw ym mhob awdurdod lleol, a bod ei gwasanaethau'n cael eu teilwra'n arbennig ar gyfer pob teulu. Fodd bynnag, dylai data ychwanegol arwain at y cyfle i ddod o hyd i grwpiau cymharu.

8.5. Er mwyn dangos effeithiau'r rhaglen a sicrhau bod unrhyw werthusiad canlyniadau'n ddefnyddiol, mae angen casglu data ychwanegol ar lefel unigolion. Heb y wybodaeth hon, mae'n bosibl dod i benderfyniad ar rai canlyniadau cyfyngedig ar hyn o bryd.

Mae'n bosibl llunio casgliadau am y canlynol:

- Agweddau a chanfyddiadau rhanddeiliaid o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf
- Sut mae'r rhaglen yn cael ei rhoi ar waith ac ansawdd y broses o wneud hynny
- P'un ai a yw cynllun y rhaglen yn addas i'r diben

Nid yw'n bosibl asesu'r canlynol ar hyn o bryd:

- Effaith gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf ar unigolion a theuluoedd
- Effeithiau penodol gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf, neu'r ffordd maent yn cyd-fynd ag ymyriadau eraill
- I ba raddau mae teuluoedd unigol yn defnyddio'r gwasanaethau, ac unrhyw grwpiau sy'n defnyddio mwy ar y gwasanaethau na grwpiau eraill.

**Argymhellion**

8.6. Mae'r adroddiad hwn yn gwneud yr argymhellion canlynol ar gyfer unrhyw werthusiadau yn y dyfodol o'r rhaglen ar ei ffurf bresennol:

- Parhau i ddefnyddio ymchwil ansoddol er mwyn deall canfyddiadau'r teuluoedd sy'n defnyddio'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.
- Dod o hyd i sampl o deuluoedd/rhieni/plant sydd wedi cael profiad o wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf, a dilyn y teuluoedd hyn dros gyfnod o amser.

Dyma’r gwelliannau posibl i’r rhaglen a allai arwain at werthusiadau mwy cadarn:

- Datblygu systemau newydd ar gyfer casglu data ar lefel unigolion am ddefnydd y teuluoedd o wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf, a fydd yn cael eu rhoi ar waith fel mater o drefn ar draws yr holl awdurdodau lleol
- Cael gwybod pan mae teuluoedd yn cael ymyriadau neu wasanaethau ychwanegol, a chysylltu hynny â’r data ar lefel unigolion gan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.

Petai’r gwelliannau hyn yn cael eu gwneud, mae’n bosibl y byddai’r gweithgareddau canlynol yn bosib:

- Dadansoddi’r data ar lefel unigolion i brofi p’un ai a yw nodweddion unigol neu ffactorau cyd-destunol ehangach yn effeithio ar effaith gwasanaethau.
- Pan fydd gwasanaethau neu ymyriadau ychwanegol yn cael eu defnyddio, canfod a yw’r rhain yn cael effaith ychwanegol ar y rhai sy’n defnyddio gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf.